

At: Yr holl Aelodau

Copi: Yr holl staff cymorth

19 Tachwedd 2020

Annwyl Aelod,

Cyfarfu Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ar 5 Tachwedd. Mae'r canlynol yn grynoded o'i drafodaethau a'i benderfyniadau.

Covid-19

Nododd y Bwrdd y byddai rheoliadau a chanllawiau Cymru ynghylch diwygio cyfyngiadau Covid-19 wrth i'r 'cyfnod atal byr' ddod i ben yng Nghymru. Nododd y Bwrdd y bydd y Senedd, o wythnos 9 Tachwedd, yn dychwelyd i ffyrdd hybrid o weithio.

Adolygodd y Bwrdd yr effeithiau ar y cyllidebau presennol a'r nifer sy'n manteisio ar y lwfans gweithio gartref y mae'r Bwrdd wedi penderfynu y bydd yn parhau tan y Diddymiad. Cytunodd y Bwrdd i gadw llygad ar lwfans costau swyddfa'r Aelodau tua diwedd y flwyddyn er mwyn nodi materion posibl. Bydd y Bwrdd yn adolygu'r sefyllfa a'r cymorth sydd ar gael i'r Aelodau mewn perthynas â Covid-19 a bydd yn cael diweddariad arall yn ei gyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr. Fel bob amser, mae'r Bwrdd yn barod i gefnogi'r Aelodau yn y cyfnod eithriadol ac ansicr hwn.

Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd, 2021-22

Trafododd y Bwrdd nifer o faterion fel rhan o'i adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad a'r pecyn cymorth i'r Aelodau, gan gynnwys materion a nodwyd gan y Bwrdd blaenorol fel y gellir mynd i'r afael â hwy cyn y Chweched Senedd, gan gynnwys:

- Cyflog yr Aelodau;
- Costau swyddfa (a fydd yn newid i'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr);
- Gwariant ar lety preswyl;
- Dileu darpariaethau nad ydynt yn berthnasol mwyach ar ôl i'r DU ymadael â'r UE;
- Y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol;
- Costau offer swyddfa a ariennir yn ganolog;

- Cynllun pensiwn y staff cymorth.

Bydd y Bwrdd yn trafod y materion hyn yn fanylach yn ei gyfarfod ar 10 Rhagfyr gyda'r bwriad o gytuno ar ddogfen ymgynghori a'i chyhoeddi, gan nodi newidiadau arfaethedig cyn gynted â phosibl ar ôl ei gyfarfod (16 Rhagfyr i'w gadarnhau).

Gwyddoch fod cyfarfodydd Grŵp Cynrychiolwyr wedi'u trefnu ar gyfer dydd Gwener 11 Rhagfyr cyn cyhoeddi'r ymgynghoriad cyn toriad y Nadolig.

Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r pwysau ar yr Aelodau ar hyn o bryd, felly hoffai annog yr Aelodau i siarad â'u Cynrychiolydd er mwyn cyfrannu ymatebion i'r ymgynghoriad os na allant ymateb yn unigol.

Contract staff cymorth

Trafododd y Bwrdd ddiweddariad gan y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau am y gwaith presennol sydd ar droed i ddiweddaru'r contract staff cymorth a'r llawlyfr staff. Cytunodd y Bwrdd y bydd y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau'n arwain ymgynghoriad â'r Aelodau a'r staff cymorth ar y contract newydd ac y bydd y Bwrdd yn trafod y mater ymhellach yn ei gyfarfod ym mis Mawrth cyn dechrau'r Chweched Senedd.

Blaenraglen waith a strategaeth

Trafododd y Bwrdd ei raglen waith ar gyfer y misoedd nesaf. Mae'r Bwrdd yn awyddus i gyfarfod â chynifer ohonoch â phosibl cyn y diddymiad a bydd yn trafod gweithio gyda'r Grwpiau Cynrychiolwyr i hwyluso cyfarfodydd rhithwir â swyddfeydd yr Aelodau yn y dyfodol.

Bydd cyfarfod â chi yn rhoi dealltwriaeth amhrisiadwy i'r Bwrdd o'r ffordd y mae'r Aelodau a'r staff cymorth yn gweithio yn y cyfnod digynsail hwn a thrafod hefyd eich anghenion posibl yn y dyfodol wrth i'r Chweched Senedd nesáu.

Cyhoeddodd y Bwrdd blaenorol ei strategaeth yn 2016 sy'n para tan 2021. O hyn i doriad yr haf yn 2021, bydd y Bwrdd yn cymryd amser i drafod ei ddull strategol o ymdrin â'i waith yn ystod y Chweched Senedd, gan ystyried ffactorau allanol megis effaith Brexit, Covid-19 ac unrhyw ddiwygiad cyfansoddiadol posibl. Bydd parhau i ymgysylltu â'r Grwpiau Cynrychiolwyr a chyfarfodydd unigol yn helpu i lywio'r drafodaeth hon.

Gobeithio bod y diweddariad hwn wedi bod yn ddefnyddiol i chi. Fel y nodwyd yn ein llythyr ar 29 Medi, ein bwriad yw parhau i ddarparu diweddariadau o'r fath yn dilyn

BWRDD **TALIADAU** REMUNERATION BOARD

cyfarfodydd, a sicrhau bod y llythyr hwn ar gael i'r cyhoedd ar ein gwefan. Os hoffech roi adborth ynghylch unrhyw un o'r materion uchod, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Rwy'n ymwybodol fy mod wedi ymgymryd â rôl Cadeirydd y Bwrdd ar adeg pan fo'n anodd cyfarfod yn bersonol. Rwyf, wrth gwrs, bob amser yn fodlon cwrdd ag Aelodau unigol a gobeithiaf gyfarfod â chynifer ohonoch ag y gallaf maes o law, o bell neu fel arall. Os hoffech drafod unrhyw fater â mi, cysylltwch ag ysgrifenyddiaeth y Bwrdd drwy anfon neges i taliadau@senedd.cymru i wneud trefniadau.

Dymuniadau gorau a chadwch yn ddiogel,



Dr Elizabeth Haywood

Cadeirydd, Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.